

## Cymorth Ariannol Eiddo Gwag

### Cais am Fenthyciad Eiddo Gwag

- Mae pob benthyciad yn cael ei warantu ag Arwystl Cyfreithiol ar yr eiddo. Cyn ymrwymo eich hun i'r benthyciad efallai y byddech yn hoffi trafod y goblygiadau gyda'ch cyfreithiwr eich hun neu eich cynghorydd ariannol.
- Bydd angen siec gyda phob cais sy'n cael ei gyflwyno. Rhaid i'r siec fod yn daladwy i Gyngor Sir y Fflint a bydd yn cael ei defnyddio i dalu'r ffioedd gweinyddol. Ceir manylion am y rhain yn y llythyr eglurhaol.

- Pan fyddwch wedi cwblhau eich cais dylech ei anfon gyda'r holl ddogfennau ategol at:

Stephen Roberts, Swyddog Datblygu Cartrefi Gwag, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol,  
Swyddfeydd y Sir, Stryd y Capel, Y Fflint, CH6 5BD

Ffôn: 01352 703398 / E-bost: [stephen.m.roberts@flintshire.gov.uk](mailto:stephen.m.roberts@flintshire.gov.uk)

#### RHAN UN – AMDANOCH CHI

Ymgeisydd Cyntaf			
1	Mr/Mrs/Ms/Arall – rhowch fanylion		
2	Enw Llawn – fel eich pasbort / trwydded yrru		
3	Cyfeiriad		
4	Nifer o flynyddoedd y buoch yn y cyfeiriad hwn		
5	Os ydych yn byw yn eich cyfeiriad presennol ers llai na thair blynedd, rhowch eich cyfeiriad(au) blaenorol os gwelwch yn dda		
6	Rhifau Ffôn		Cartref:  Ffôn Symudol:
7	Cyfeiriad e-bost		
8	Rhif Yswiriant Gwladol	Dyddiad Geni	Y.G.                      D.G.
9	Beth yw eich statws preswyllo presennol? Perchennog tŷ/rhent u llety, byw gyda rhieni/arall – rhowch fanylion		
10	A ydych yn breswlydd arferol yn y DU i ddibenion treth?		Ydw / Nac Ydw

Ail Ymgeisydd			
11	Mr/Mrs/Ms/ Arall – rhowch fanylion		
12	Enw Llawn – fel eich pasbort		
13	Cyfeiriad		
14	Nifer o flynyddoedd y buoch yn y cyfeiriad hwn		
15	Os ydych yn byw yn eich cyfeiriad presennol ers llai na thair blynedd, rhowch eich cyfeiriad(au) blaenorol os gwelwch yn dda		
16	Rhifau Ffôn		Cartref: Ffôn Symudol:
17	Cyfeiriad e-bost		
18	Rhif Yswiriant Gwladol	Dyddiad Geni	Y.G.                      D.G.
19	Beth yw eich statws preswyllo presennol? Perchennog tŷ/rhentu llety, byw gyda rhieni/arall – rhowch fanylion		
20	A ydych yn breswlydd arferol yn y DU i ddibenion treth?		Ydw / Nac Ydw
21	Perthynas â'r Ymgeisydd Cyntaf – rhowch fanylion		
22	A oes unrhyw ymgeiswyr eraill?  Os ydych wedi ateb Oes, llenwch Atodiad A sydd ynghlwm wrth y ffurflen hon os gwelwch yn dda		Oes / Nac Oes

**OS OES MWY NA DAU YMGEISYDD UNIGOL  
LLENWCH ATODIAD A OS GWELWCH YN DDA**

**RHAN DAU – MANYLION ADNABOD**

- I ddibenion y cais hwn bydd angen i ni wirio manylion adnabod pob ymgeisydd sy'n cael ei restru yn rhan un uchod.
- Gofynnir i chi fynd â dwy ddogfen wreiddiol o'r rhestr isod i swyddfeydd y Cyngor. Argymhellir yn gryf eich bod yn trefnu apwyntiad gyda'r swyddog cyswllt cyn eich ymweliad.
- Dylai un ddogfen fod o restr A a rhaid i'ch enw fod arni.
- Dylai un ddogfen fod o restr B a dylai ddangos y cyfeiriad lle rydych yn byw. Dylai hefyd fod yn eich enw chi neu yn enw eich teulu.
- Dim ond y dogfennau a restrir fydd yn cael eu derbyn – nid yw bil ffôn symudol yn dderbyniol.

Ticiwch y blwch perthnasol i ddangos pa ddogfennau adnabod rydych yn eu darparu.  
Byddai dogfennau adnabod ffotograffig yn well ar gyfer RHESTR A.

RHESTR	Disgrifiad o'r ddogfen	Ymgeisydd Cyntaf	Ail Ymgeisydd
A	Pasbort Dilys	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Trwydded Yrru Ddilys	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Hysbysiad Treth Swyddogol (llai na 12 mis oed) gan Gyllid y Wlad, e.e. ffurflen asesu treth, datganiad cyfrifon, hysbysiad cod treth neu hawl i greydau treth. (Sylwer nad yw P45 a P60 yn ddogfennau Cyllid y Wlad ac na fyddant yn cael eu derbyn i'r diben hwn.)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
B	Bil Treth Gyngor Cyfredol – llai na 12 mis oed	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Bil Cyfleustodau (e.e. trydan, nwy, dŵr) – llai na 3 mis oed	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Datganiad Banc neu Gymdeithas Adeiladu – llai na 3 mis oed	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Datganiad cerdyn credyd – llai na 3 mis oed	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Hysbysiad Treth Swyddogol (manylion fel RHESTR A – OND ni ellir ei ddefnyddio i gadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

### RHAN TRI – MANYLION YR EIDDO

23	<b>Cyfeiriad yr Eiddo Gwag</b>	
24	<p><b>Rhif Teitl y Gofrestrfa Tir</b></p> <p>Er mwyn cadarnhau mai chi yw'r perchennog mae'n ofynnol i chi gyflwyno "copi swyddfa" cyfredol o Gofrestr Teitl a Chynllun Teitl yr eiddo gan y Gofrestrfa Tir.</p> <p>Mae 'cyfredol' yn golygu bod y copi swyddfa wedi ei gael yn ystod y 28 diwrnod cyn cyflwyno'r cais hwn. Mae'n rhaid i'ch eiddo fod wedi ei gofrestru yn y Gofrestrfa Tir cyn y gellir symud ymlaen â'ch cais. <a href="http://www.landregistry.gov.uk">www.landregistry.gov.uk</a></p>	<p>Gwnewch yn siŵr bod y teitl dan Adran B: Cofrestr Perchnogaeth yn cynnwys cyfeiriad eich prif breswylfa fel y mae wedi ei nodi yn Rhan Un y ffurflen gais.</p> <p><input type="checkbox"/> Ticiwch i gadarnhau eich bod wedi cyflwyno copi o'r Teitl gyda'ch cais am Fenthyciad Eiddo Gwag</p>
25	<b>Ydy'r eiddo'n rhydd-ddaliad ynteu'n les-ddaliad?</b>	
26	<p><b>Ers faint mae'r eiddo wedi bod yn wag?</b></p> <p>Ni fydd ceisiadau'n cael eu derbyn os yw'r eiddo wedi bod yn wag am lai na 6 mis.</p>	
27	<p><b>Faint o unedau llety y mae'r eiddo'n eu darparu ar hyn o bryd?</b></p> <p>Mae uned lety'n golygu unrhyw uned annibynnol sydd â'r holl gyfleusterau, h.y. ystafell ymolchi a chegin y tu ôl i'r prif ddrws sy'n caniatáu mynediad i'r uned. Byddai uned yn dŷ, <i>maisonette</i> neu fflat annibynnol.</p>	
28	<b>Faint o unedau llety fydd yn cael eu darparu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau?</b>	

29	<p><b>A fydd angen caniatâd cynllunio i wneud y gwaith arfaethedig?</b></p> <p>Os ydych wedi ateb BYDD, gofynnir i chi gadarnhau beth yw'r sefyllfa gyda'r caniatâd cynllunio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi ei roi Rhowch y cyfeirnod llawn:</li> <li>• Disgwyl penderfyniad</li> <li>• Cais am ganiatâd cynllunio heb ei gyflwyno eto</li> </ul>	<p>Bydd / Na fydd</p> <p><input type="checkbox"/> Dyddiad rhoi caniatâd: Cyfeirnod:</p> <p><input type="checkbox"/> Dyddiad cyflwyno:</p> <p><input type="checkbox"/></p>
30	<p><b>A fydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer y gwaith arfaethedig?</b></p> <p>Os ydych wedi ateb BYDD, gofynnir i chi gadarnhau beth yw'r sefyllfa gyda chymeradwyaeth rheoliadau adeiladu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi ei rhoi Rhowch y cyfeirnod llawn:</li> <li>• Disgwyl penderfyniad</li> <li>• Rheoliadau adeiladu heb eu cyflwyno eto</li> </ul>	<p>Bydd / Na fydd</p> <p><input type="checkbox"/> Dyddiad rhoi cymeradwyaeth: Cyfeirnod:</p> <p><input type="checkbox"/> Dyddiad Cyflwyno:</p> <p><input type="checkbox"/></p>
31	<p><b>Ar ôl cwblhau'r gwaith a fyddwch chi, neu rywun sy'n perthyn i chi, yn byw yn yr eiddo neu yn unrhyw rai o'r unedau?</b></p>	<p>Byddaf/Bydd / Na fyddaf/Na fydd</p>
32	<p><b>Os ydych wedi ateb BYDDAF/BYDD, dywedwch pwy fydd yn byw yn yr eiddo neu mewn unrhyw unedau, ac os yw'r unigolyn/bobl yn perthyn i chi rhowch fanylion am y berthynas</b></p>	

**RHAN PEDWAR – Cyfrif Banc**  
**Manylion y cyfrif y byddai arnoch angen i'r benthyciad gael ei dalu iddo**

Enw'r Banc/Cymdeithas Adeiladu	
Cod Didoli	
Enw Deiliad y Cyfrif	
Rhif y Cyfrif	

**RHAN PUMP – Manylion eich Incwm**

**Ceidw Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid yr hawl i archwilio statws credyd unrhyw unigolyn/cwmni sy'n gwneud cais am fenthyciad. Drwy lofnodi'r cais hwn rydych yn rhoi caniatâd i Gyngor Sir y Fflint neu ei bartneriaid wneud archwiliadau statws credyd o'r fath.**

<b>33</b>	<b>Ydych chi'n gwmni cyfyngedig?</b>  Os ydych wedi ateb YDYM ewch i <b>Ran B</b>	Ydym / Nac ydym
-----------	---	-----------------

<b>RHAN PUMP (A)</b> <b>Rhowch y manylion cyflogaeth isod ar gyfer pob ymgeisydd</b>				<b>Ymgeisydd Cyntaf</b>	<b>Ail Ymgeisydd</b>
<b>34</b>	<b>Statws Cyflogaeth – cyflogedig llawn/rhan amser, hunangyflogedig, di-waith, wedi ymddeol, arall (rhowch fanylion)</b>				
<b>35</b>	<b>Beth yw eich galwedigaeth?</b>				
<b>36</b>	<b>Ers faint rydych chi wedi bod yn gweithio i'ch cyflogwr presennol?</b>				
<b>37</b>	<b>Rhowch enw a chyfeiriad eich cyflogwr presennol os gwelwch yn dda.</b>  Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch cyflogwr i wirio'r wybodaeth a roddwyd gennych ynglŷn â'ch cyflogaeth.				
<b>38</b>	<b>Beth yw eich cyflog blynyddol cyn treth?</b>  Bydd angen i chi anfon eich P60 cyfredol neu slipiau cyflog y tri mis diwethaf / 5 slip cyflog wythnosol gyda'r cais hwn		<input type="checkbox"/> Ydych chi wedi darparu copïau gwreiddiol?	<input type="checkbox"/> Ydych chi wedi darparu copïau gwreiddiol?	
<b>39</b>	<b>Oes gennych chi incwm rheolaidd arall?</b> <b>Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.</b>				
<b>40</b>	<b>Oes gennych chi unrhyw incwm o eiddo rhent/buddsoddi?</b> <b>Rhowch y manylion isod neu ar ddarn arall o bapur os oes angen mwy o le – gan ddefnyddio'r penawdau isod</b>		Oes / Nac oes	Oes / Nac oes	
	<b>Cyfeiriad</b>	<b>Cod Post</b>	<b>Gwerth Presennol £</b>	<b>Morgais Presennol £</b>	<b>Incwm Rhent y Flwyddyn £</b>
(i)					
(ii)					
(iii)					
(iv)					
(v)					

41	<b>Os ydych yn hunangyflogedig bydd angen i chi ddarparu copi o gyfrifon ardystiedig y tair blynedd diwethaf.</b> Ticiwch i ddangos eich bod wedi amgáu'r uchod.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
42	<b>Oes gennych chi gynilion?</b> Ticiwch i ddangos eich bod wedi darparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau'r swm.	Oes / Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes / Nac oes <input type="checkbox"/>
43	<b>Ydych chi erioed wedi methu â gwneud ad-daliad dan unrhyw forgais blaenorol, dan eich morgais presennol, neu dan gytundeb rhentu neu fenthyca?</b>	Do / Naddo	Do / Naddo
44	<b>Ydych chi erioed wedi bod yn rhan o achos llys yn ymwneud â dyled/cytundebau ariannol gyda chredydwy'r?</b>	Do / Naddo	Do / Naddo
45	<b>Oes yna Ddyfarniadau Llys Sirol wedi eu cofrestru yn eich erbyn ar hyn o bryd?</b> Os OES rhowch fanylion os gwelwch yn dda.	Oes / Nac oes	Oes / Nac oes
46	<b>Ydych chi erioed wedi bod yn ansolfent neu'n fethdalwr, neu a gafodd eich asedau / incwm eu secwestro erioed?</b>  Mae bod yn fethdalwr yn golygu cael gorchymyn methdalw yn eich erbyn ar ôl i ddeiseb methdaliad gael ei chyflwyno i'r Llys (gan gredydwr neu gan y dyledwr ei hun). Dim ond yng Nghymru a Lloegr y mae'r ymadrodd hwn yn berthnasol.  Secwestro – yn gyffredinol, yr hyn sy'n cyfateb i fethdaliad yn yr Alban.  Yn gyffredinol, derbynnir bod ansolfedd yn golygu bod heb ddigon o asedau i dalu'r holl ddyledion, neu fethu â thalu dyledion pan maent yn ddyledus.	Do / Naddo	Do / Naddo

<b>RHAN PUMP (B) – Cwmnïau Cyfyngedig</b> <b>Rhowch y manylion cyflogaeth isod ar gyfer pob ymgeisydd</b>		
47	<b>Beth yw enw eich cwmni?</b>	
48	<b>Beth yw rhif cofrestru eich cwmni?</b>	Rhif y Cwmni:
49	<b>Ydy eich cwmni wedi ei gofrestru ar gyfer TAW?</b> <b>Os Ydyw, rhowch y rhif cofrestru TAW</b>	Ydyw / Nac ydyw Rhif TAW:
50	<b>Mae'n ofynnol i chi ddarparu copi o'ch cyfrifon ardystiedig am y tair blynedd diwethaf i gefnogi eich cais.</b> Ticiwch i ddangos eich bod wedi amgáu'r uchod.	<input type="checkbox"/>
51	<b>Ydy'r cwmni erioed wedi methu â gwneud ad-daliad dan unrhyw forgais blaenorol, dan y morgais presennol, neu dan gytundeb rhentu neu fenthyca?</b>	Do / Naddo
52	<b>Ydy'r cwmni erioed wedi bod yn rhan o achos llys yn ymwneud â dyled/cytundebau ariannol gyda chredydwy'r?</b>	Do / Naddo

<b>53</b>	<p><b>Ydy'r cwmni erioed wedi bod yn ansolfent neu'n fethdalwr, neu a gafodd ei asedau / incwm eu secwestro erioed?</b></p> <p>Mae bod yn fethdalwr yn golygu cael gorchymyn methdalw yn eich erbyn ar ôl i ddeiseb methdaliad gael ei chyflwyno i'r Llys (gan gredydwr neu gan y dyledwr ei hun). Dim ond yng Nghymru a Lloegr y mae'r ymadrodd hwn yn berthnasol.</p> <p>Secwestro – yn gyffredinol, yr hyn sy'n cyfateb i fethdaliad yn yr Alban.</p> <p>Yn gyffredinol, derbynnir bod ansolfedd yn golygu bod heb ddigon o asedau i dalu'r holl ddyledion, neu fethu â thalu dyledion pan maent yn ddyledus.</p>	Do / Naddo
-----------	--	------------

### RHAN CHWECH – Cynllun Busnes

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Rhowch grynodedb o'r gwaith y bwriadwch ei wneud, gan nodi cyfanswm costau cyflawni'r gwaith hwn a datgan yn glir a yw hyn yn cynnwys TAW ai peidio.</b></li> <li>• <b>Mae angen anfon gyda'r cais hwn ddwy restr gan wahanol gontractwyr o'r gwaith, gyda phob eitem wedi'i nodi'n llawn.</b></li> <li>• <b>Gallech fod yn gymwys i gyfradd TAW is gan ddibynnu ers faint y mae'r eiddo wedi bod yn wag ac a ydych yn penodi contractwr sydd wedi ei gofrestru ar gyfer TAW. Bydd eich Swyddog Eiddo Gwag lleol yn gallu rhoi rhagor o fanylion i chi. *</b></li> </ul> <p><b>* I gael eglurhad pellach darllenwch hysbysiad TAW 708, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sydd i'w weld yn <a href="http://www.hmrc.gov.uk">www.hmrc.gov.uk</a> (Rhowch 'VAT notice 708' yn y chwilotwr).</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Disgrifiad o'r gwaith</b></li> <li>• <b>Mewnol</b></li> <li>• <b>Allanol</b></li> </ul>	

<b>54</b>	<b>Ydych chi wedi darparu dwy restr o'r gwaith â manylion llawn am yr eitemau gan wahanol gontractwyr?</b>			Do / Naddo	
	<b>Enw'r Cwmni</b>	<b>Cofrestru ar gyfer TAW</b>	<b>Dyddiad y Dyfynbris</b>	<b>Cost Gros</b>	<b>Cost Net</b>
<b>(i)</b>		Do / Naddo			
<b>(ii)</b>	Do / Naddo				

<b>55</b>	<b>A yw maint y gwaith hwn wedi ei gytuno gyda'r Swyddog Eiddo Gwag a'r costau wedi eu pennu'n gostau rhesymol ar gyfer y gwaith?</b>			Do / Naddo	
<b>56</b>	<p><b>Mae'r adran isod yn ymwneud â'r eiddo y bwriedir ailddechrau ei ddefnyddio.</b></p> <p><b>Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ateb yr holl adrannau perthnasol.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Rhaid i bob cais gael ei gefnogi gan adroddiad prisio, oni nodwyd yn wahanol gan y Swyddog Eiddo Gwag. Rhaid i'r prisiad gael ei wneud gan aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) ar yr eiddo sy'n cael ei gynnig fel gwarant ar gyfer y benthyciad. Dylai'r adroddiad gadarnhau gwerth presennol yr eiddo ar y farchnad, ei werth posibl (ar ôl cwblhau'r prosiect) ac incwm rhentu (os yw'n fenthyciad i osod).</b></li> <li><b>Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am dalu am y prisiad.</b></li> <li><b>Rhaid i Gyngor Sir y Fflint gael ei enwi fel parti â buddiant a rhaid i'r syrfewr ddeall bod y Cyngor yn dibynnu ar yr adroddiad prisio ar gyfer y cais am fenthyciad.</b></li> </ul>				
i.	Pryd cafodd yr eiddo ei brynu? Faint oedd pris prynu'r eiddo, gan gynnwys yr holl gostau ategol e.e. ffioedd cyfreithwyr/syrfewyr, toll stamp ac ati.	Dyddiad		£	
ii.	Beth yw gwerth yr eiddo yn ei gyflwr presennol?			£	
iii.	Beth yw cyfanswm cost y gwaith? – Dylai hyn fod yr un fath â chwestiwn 54 uchod a dylai gynnwys TAW, os yw'n berthnasol.			£	
iv.	Oes yna unrhyw forgeisi neu fenthyciadau wedi eu gwarantu yn erbyn yr eiddo hwn yn barod?	Oes / Nac oes			
v.	Os ydych chi wedi ateb oes i'r cwestiwn uchod nodwch werth y benthyciad(au) neu'r morgais/morgeisi sy'n bodoli'n barod.  Bydd yn ofynnol i chi roi rhagor o wybodaeth yn Rhan Saith – Gwarant Benthyciad			£	
vi.	Faint yw'r ad-daliadau misol a delir ar y benthyciad(au) neu'r morgais/morgeisi sy'n bodoli'n barod?			£	



vii.	Faint yw cyfanswm gwerth disgwylidig yr eiddo/unedau ar ôl cwblhau'r gwaith?		£
viii.	Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau a fydd yr eiddo/unedau yn cael eu gwerthu ynteu eu rhentu?	Gwerthu / Rhentu	
ix.	Os bydd yr eiddo/unedau'n cael eu gwerthu, nodwch y pris gwerthu disgwylidig ar ôl tynnu'r holl gostau gwerthu ategol e.e. asiant tai/ffioedd cyfreithiol ac ati. Os yw'r benthyciad ar gyfer addasu eiddo yn nifer o unedau rhowch y gwerth ar gyfer pob uned.		£
x.	Os bydd yr eiddo/unedau'n cael eu rhentu, nodwch gyfanswm disgwylidig y gwerth rhentu <u>net</u> (bob mis/blwyddyn), h.y. ar ôl tynnu unrhyw gostau rheoli, yswiriant, cynnal a chadw ac ati.		£
xi.	Nodwch y dull arfaethedig o osod yr eiddo/unedau – hunan/cynllun lesio sector preifat/asiant gosod.		
xii.	Pa fenthyciad rydych chi'n gwneud cais amdano? E1 Troi Tai'n Gartrefi E2 Benthyciad Eiddo Gwag E3 Benthyciad Eiddo Gwag a Ad-delir N3 Grant Eiddo Gwag (Gweler y nodiadau sydd ynghlwm wrth y ffurflen gais hon am wybodaeth bellach am yr holl fenthyciadau hyn)		<input type="checkbox"/> E1 <input type="checkbox"/> E2 <input type="checkbox"/> E3 <input type="checkbox"/> N3
xiii.	Beth yw gwerth y benthyciad rydych yn gwneud cais amdano? (Yr uchafswm sydd ar gael yw £25,000 yr eiddo neu uned addasedig, neu uchafswm o £150,000 i bob ymgeisydd).		£
xiv.	Pa arian cyfalaf fyddwch chi'n ei gyfrannu i'r cynllun o'ch adnoddau eich hun?  Bydd angen prawf dogfennol i gadarnhau bod yr arian hwn ar gael. (Datganiad Banc, Cynnig Morgais)		£  <input type="checkbox"/> Ydych chi wedi darparu prawf dogfennol?

<b>57</b>	<b>Os na fydd cyfanswm y benthyciad eiddo gwag / benthyciadau eraill yn ddigon i dalu cost y gwaith sut fyddwch chi'n ariannu'r diffyg hwn?</b>  Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.	
<b>58</b>	<b>Sut fydd yr arian yn cael ei ad-dalu?</b>  Ticiwch y blwch priodol.  Dewis arall fyddai ad-dalu'r swm cyfalaf mewn rhandaliadau rheolaidd yn ystod cyfnod y benthyciad drwy Ddebyd Uniongyrchol.	<input type="checkbox"/> Drwy ailariannu. <input type="checkbox"/> Drwy ailwerthu'r eiddo/unedau. <input type="checkbox"/> Arian Preifat. <input type="checkbox"/> Ad-daliadau Cyfalaf Rheolaidd.

	Os ydych yn ystyried y dewis hwn, dylech ei drafod gyda'r Swyddog Eiddo Gwag.	
59	<b>Oes gennych chi unrhyw enghreifftiau blaenorol o brosiectau adnewyddu/datblygu llwyddiannus y buoch yn ymwneud â hwy?</b>  Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.	
60	<b>Oes yna unrhyw wybodaeth arall y byddech chi'n hoffi ei rhoi i gefnogi eich cais?</b>  Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.	

### RHAN SAITH – Gwarant Benthyciad

**Mae'n ofynnol i bob benthyciad gael ei warantu ag arwystl ariannol, a fydd yn cael ei gofrestru yn swyddfa'r Gofrestrfa Tir. Rhaid i'r arwystl hwn fod yn arwystl cyntaf neu'n ail arwystl. Ni dderbynnir trydydd arwystl nac arwystlon dilynol.**

Lle bo arwystl cyntaf ar yr eiddo eisoes bydd yn ofynnol i chi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig gan y darparwr benthyciad ei fod yn barod i dderbyn ail arwystl ar yr eiddo o blaid Cyngor Sir y Fflint. Byddai'n well i chi gadarnhau hyn cyn cyflwyno eich cais.

#### GWELER ATODIAD B

61	<b>A wnewch chi gadarnhau bod cyfeiriad a rhif teitl yr eiddo sy'n cael ei gynnig fel gwarant ar gyfer y benthyciad yr un fath â'ch ateb i C23 a C24?</b>  Os oes morgais/benthyciad wedi ei warantu eisoes yn erbyn yr eiddo cwblhewch y tabl isod.	Ydy / Nac ydy  <b>Os Ydy</b> cwblhewch (i-iv) isod ac ewch yn syth i Ran Wyth - Datganiad  <b>Os Nac ydy</b> cwblhewch C62 a C63 isod
(i)	Enw'r Darparwr Benthyciad?	
(ii)	Enw cyswllt a rhif ffôn y darparwr benthyciad?	
(iii)	Cyfeiriad y darparwr benthyciad?	
(iv)	Rhif cyfrif y morgais/benthyciad?	
62	<b>A wnewch chi gadarnhau cyfeiriad a rhif teitl yr eiddo sy'n cael ei gynnig fel gwarant ar gyfer y benthyciad?</b>  Er mwyn cadarnhau mai chi yw'r perchennog mae'n ofynnol i chi gyflwyno "copi swyddfa" cyfredol o Gofrestr Teitl a Chynllun Teitl yr eiddo gan y Gofrestrfa Tir.  Mae 'cyfredol' yn golygu bod y copi swyddfa wedi ei gael yn ystod y 28 diwrnod cyn cyflwyno'r cais hwn. Mae'n rhaid i'ch eiddo fod wedi ei gofrestru yn y Gofrestrfa Tir cyn y gellir symud ymlaen â'ch cais. <a href="http://www.landregistry.gov.uk">www.landregistry.gov.uk</a>	Cyfeiriad:          Rhif y Teitl:

<b>63</b>	<b>Oes yna forgais/benthyciad wedi ei warantu eisoes yn erbyn yr eiddo?</b> Os oes morgais/benthyciad wedi ei warantu eisoes yn erbyn yr eiddo llenwch y tabl isod.	Oes / Nac oes  Os ydych wedi ateb <u>Oes</u> cwblhewch yr isod
(i)	Enw'r darparwr benthyciad?	
(ii)	Enw cyswllt a rhif ffôn y darparwr benthyciad?	
(iii)	Cyfeiriad y darparwr benthyciad?	
(iv)	Rhif cyfrif y morgais/benthyciad?	
(v)	Swm y benthyciad/morgais sy'n ddyledus?	
(v)	Beth yw gwerth yr eiddo hwn?  Gweler C56 ar gyfer y gofynion.	£  <input type="checkbox"/> Ydych chi wedi darparu adroddiad prisio?

### RHAN WYTH – Datganiad

**Gall unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, gan wybod hynny, fod yn euog o drosedd.**

**Gallai eich eiddo fod mewn perygl os nad ydych yn cydymffurfio ag amodau'r benthyciad.**

**Yr wyf fi/Yr ydym ni yn datgan bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir.**

<b>Ymgeisydd 1<sup>af</sup></b>	<b>Enw:</b>	<b>Dyddiad:</b>
<b>2<sup>il</sup> Ymgeisydd</b>	<b>Enw:</b>	<b>Dyddiad:</b>

### Diogelu Data

**Mae'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni yn gyfrinachol a dim ond i ddibenion y cais am fenthyciad eiddo gwag y bydd yn cael ei defnyddio.**

- Os byddwch yn rhoi gwybodaeth bersonol i ni, bydd yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a dim ond i'r dibenion y rhoddwyd hi y bydd yn cael ei defnyddio.
- Os oes gennym wybodaeth amdanoch, rydym yn eich sicrhau y byddwn yn ei phrosesu'n deg ac yn gyfreithlon.

#### **Defnyddio a datgelu gwybodaeth.**

Dim ond yn unol â'r hyn rydym wedi ei ddweud wrthyf y byddwn yn defnyddio neu'n datgelu'r wybodaeth amdanoch, oni bai ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny am resymau cyfreithiol.

#### **Rhannu gwybodaeth gydag eraill.**

Weithiau mae'n rhaid i ni gadarnhau neu rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau. Efallai y byddwn yn rhoi eich gwybodaeth i eraill sy'n gwneud gwaith i ni wrth weinyddu'r benthyciad ac er mwyn atal gweithgaredd twyllodrus neu adennill dyledion. Os bydd angen i ni wneud hyn, byddwn yn nodi hynny'n glir ar y ffurflen y byddwch yn ei llenwi i roi'r wybodaeth i ni. I ddibenion Menter Troi Tai'n Gartrefi, rhennir gwybodaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid.

#### **Cyhoeddusrwydd**

Os ydych yn derbyn y benthyciad, ticiwch y blwch hwn os **nad ydych yn cytuno** i gymryd rhan

mewn unrhyw ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd gyda'r sefydliadau partner i hybu Menter Troi Tai'n Gartrefi.

## **TELERAU AC AMODAU**

### ***Gwerthuso Menter Troi Tai'n Gartrefi***

#### **Defnyddir yr wybodaeth a rowch i ni er mwyn gwerthuso Menter Troi Tai'n Gartrefi**

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi yn ffurfiol Brifysgol Sheffield Hallam fel contractwyr i werthuso Menter Troi Tai'n Gartrefi. Bydd y gwerthusiad yn helpu Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau y datblygir mentrau eraill yn y dyfodol gyda dealltwriaeth glir ynghylch pa mor ddefnyddiol i bobl roedd grantiau Troi Tai'n Gartrefi, a pham.

Trwy gyflwyno'r cais hwn/derbyn y benthyciad hwn, rydych yn cytuno i'r wybodaeth a rowch gael ei rhoi i'r contractwr ymchwil ar gyfer gwerthuso'r fenter.

Byddai Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi yn fawr eich barn fel ymgeisydd am grant am Troi Tai'n Gartrefi a byddent yn ddiolchgar petai'r ymchwilwyr yn cael eich cynnwys yn eu harolwg byr o ymgeiswyr yn ystod y misoedd nesaf. Ni fydd yn rhaid i chi gymryd rhan a chewch wrthod y gwahoddiad os dymunwch.

Ar gyfer y gwerthusiad, bydd y manylion cyswllt a rowch yn cael eu defnyddio fel modd o gysylltu â chi ar gyfer yr arolwg yn unig. Bydd yr wybodaeth arall a rowch yn cael ei defnyddio gyda data gan ymgeiswyr eraill ar gyfer creu ystadegau crynodol yn unig ac ni fydd modd eich adnabod trwy'r wybodaeth.

## Cymorth gydag eiddo gwag yn Sir y Fflint

Hydref 2013

### CANLLAWIAU AR GYFER CWBLHAU'R FFURFLEN GAIS AM GYMORTH ARIANNOL BENTHYCIAD EIDDO GWAG

#### E1. TROI TAI'N GARTREFI

**Uchafswm: £25,000**

**Mae'r Cyngor yn dal cyfran o'r eiddo a ad-delir os yw'n cael ei werthu neu ei drosglwyddo cyn pen 2-3 mlynedd.**

**Ar gyfer y rhai sy'n berchnogion ers 6 mis neu ragor, eiddo preswyl gwag i'w gwella i safon lle gellir eu gosod.**

Mae tua 500 o eiddo yn y Sir sy'n wag ers talwm. Diben y benthyciad hwn yw helpu perchnogion i sicrhau y gellir defnyddio eiddo gwag eto. Ceir benthyciad di-log i dalu am waith sy'n codi'r eiddo at y Safon Tai Gweddus (Atodiad A), er enghraifft gwaith i drwsio adeilad sydd mewn cyflwr gwael iawn, darparu cegin ac ystafell ymolchi fodern, gwella systemau gwresogi ac ynysu a dileu unrhyw beryglon difrifol a allai amharu ar les y preswlydd, megis lleithder, grisiau neu wifrau trydan peryglus.

<b>Meini Prawf Cymhwysedd</b>	<b>Amodau</b>	<b>Swm</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan yr ymgeisydd fuddiant perchennog</li> <li>• Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod â digon o ecwiti yn ei eiddo i gyfateb i swm y benthyciad/neu gynnig eiddo arall sydd â digon o ecwiti i gynnig sicrwydd</li> <li>• Mae'n rhaid i eiddo'r ymgeisydd fod yn wag ers talwm (dros 6 mis)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i'r eiddo gael ei osod i denantiaid nes i'r benthyciad gael ei ryddhau neu nes gwerthir yr eiddo</li> <li>• Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw hawliau tenantiaeth trwy gydol y cytundeb</li> <li>• Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae'n rhaid i'r eiddo fod yn gyfanheddol ac o safon lle gellir ei osod (dim peryglon categori 1)</li> <li>• Rhaid i'r eiddo gael ei warchod gan yswiriant adeilad nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Uchafswm benthyciad o £25,000 yn amodol ar brofi cymhwysedd ac asesiad benthyciad</li> <li>• Mae'r Cyngor yn dal cyfran o werth yr eiddo, hyd at gost y gwaith</li> <li>• Ad-delir y benthyciad pan gaiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo (uchafswm cyfnod y benthyciad yw 2 flynedd ar gyfer gwerthu a 3 blynedd ar gyfer rhentu)</li> <li>• Gellir dewis ad-dalu'r benthyciad yn gynnar ar unrhyw adeg</li> </ul>

## E2. BENTHYCIAD EIDDO GWAG

**Uchafswm: benthyciad di-log o £10,000.**

**Mae'r Cyngor yn dal cyfran o'r eiddo a ad-delir os yw'n cael ei werthu neu ei drosglwyddo.**

**Ar gyfer y rhai sy'n berchnogion ers 6 mis neu ragor, eiddo preswyl gwag 'anweddus' yn ôl arolygiad, i'w gwella i safon lle gellir eu gosod, i'w rentu i denantiaid a enwebir gan y Cyngor.**

Mae tua 500 o eiddo yn y Sir sy'n wag ers talwm. Diben y benthyciad hwn yw helpu perchnogion i sicrhau y gellir defnyddio eiddo gwag eto. Ceir benthyciad di-log i dalu am waith sy'n codi'r eiddo at y Safon Tai Gweddus (Atodiad A), er enghraifft gwaith i drwsio adeilad sydd mewn cyflwr gwael iawn, darparu cegin ac ystafell ymolchi fodern, gwella systemau gwresogi ac ynysu a dileu unrhyw beryglon difrifol a allai amharu ar les y preswlydd, megis lleithder, grisiau neu wifrau trydan peryglus.

<b>Meini Prawf Cymhwysedd</b>	<b>Amodau</b>	<b>Swm</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae gan yr ymgeisydd fuddiant perchennog</li><li>• Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod â digon o ecwiti yn ei eiddo i gyfateb i swm y benthyciad</li><li>• Eiddo anweddus neu mae ganddo beryglon categori 2 sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer eiddo sy'n debyg o ran oed</li><li>• Mae'n rhaid i eiddo'r ymgeisydd fod yn wag ers talwm (dros 6 mis) a bod y Cyngor yn credu bod angen tai yn yr ardal</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhaid i'r eiddo gael ei osod i denantiaid nes i'r benthyciad gael ei ryddhau</li><li>• Rhaid i berchennog yr eiddo gytuno i'r eiddo gael ei reoli gan asiantaeth gosod tai cymdeithasol</li><li>• Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw hawliau tenantiaeth trwy gydol y cytundeb.</li><li>• Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr eiddo yn bodloni'r Safon Tai Gweddus</li><li>• Rhaid i'r eiddo gael ei warchod gan yswiriant adeilad nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Uchafswm benthyciad o £10,000 yn amodol ar brofi cymhwysedd ac asesiad benthyciad</li><li>• Isafswm benthyciad o £500</li><li>• Mae'r Cyngor yn dal cyfran o werth yr eiddo, hyd at gost y gwaith</li><li>• Ad-delir y benthyciad pan gaiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo neu pan ddaw'r hawl i enwebu i ben</li><li>• Gellir dewis ad-dalu'r benthyciad yn gynnar ar unrhyw adeg</li></ul>

Sylwer: Ystyrir ceisiadau hefyd gan y rhai sy'n prynu eu cartref cyntaf ac sy'n dymuno byw yn yr eiddo ac sydd hefyd wedi cofrestru ar Gofrestr Perchnogaeth Cartref Fforddiadwy'r Cyngor. Nid yw'r ymgeiswyr hyn yn ddarostyngedig i'r amodau ynghylch asiantaeth gosod tai cymdeithasol yn rheoli'r eiddo, Cyngor Sir y Fflint yn dal hawliau enwebu tenantiaid a'r gofyniad i ddod yn landlord achrededig.

### E3. BENTHYCIAD EIDDO GWAG A AD-DELIR

**Uchafswm: £15,000 Isafswm: £3,000, benthyciad lle codir llog**

**Mae'r Cyngor yn dal cyfran o'r eiddo a ad-delir os yw'n cael ei werthu neu ei drosglwyddo ar gyfer y £10,000 cyntaf, mae'n rhaid ad-dalu unrhyw swm dros £10,000 yn fisol.**

**Ar gyfer y rhai sy'n berchnogion ers 6 mis neu ragor, eiddo preswyl gwag i'w gwella i safon lle gellir eu gosod, mewn ardaloedd cymwys.**

Benthyciad a ad-delir a lle codir llog o 4% y flwyddyn (a delir yn fisol) i dalu am waith sy'n codi'r eiddo at y Safon Tai Gweddus (Atodiad A). Cynigir y benthyciad hwn lle mae cost y gwaith yn fwy na'r uchafswm o £10,000 ar gyfer y Benthyciad Eiddo Gwag neu'r uchafswm o £25,000 ar gyfer Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru.

<b>Meini Prawf Cymhwysedd</b>	<b>Amodau</b>	<b>Swm</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae gan yr ymgeisydd fuddiant perchennog</li><li>• Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod â digon o ecwiti yn ei eiddo i gyfateb i swm y benthyciad a bod ag 20% o ecwiti rhydd yn weddill</li><li>• Eiddo anweddus neu mae ganddo beryglon categori 2 sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer eiddo sy'n debyg o ran oed</li><li>• Mae'n rhaid i eiddo'r ymgeisydd fod yn wag ers talwm (dros 6 mis) a bod y Cyngor yn credu bod angen tai yn yr ardal</li><li>• Cynigir y benthyciad lle mae cost y gwaith yn fwy na'r uchafswm o £10,000 ar gyfer y Benthyciad Eiddo Gwag neu'r uchafswm o £25,000 ar gyfer Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhaid i'r eiddo gael ei osod i denantiaid nes i'r benthyciad gael ei ryddhau</li><li>• Rhaid i berchennog yr eiddo gytuno i'r eiddo gael ei reoli gan asiantaeth gosod tai cymdeithasol</li><li>• Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw hawliau tenantiaeth trwy gydol y cytundeb.</li><li>• Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr eiddo yn bodloni'r Safon Tai Gweddus</li><li>• Rhaid i'r eiddo gael ei warchod gan yswiriant adeilad nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Uchafswm benthyciad o £15,000 yn amodol ar brofi cymhwysedd ac asesiad benthyciad</li><li>• Isafswm benthyciad o £3,000</li><li>• Mae gweinyddwr benthyciadau'r Cyngor yn dal cyfran o werth yr eiddo, mewn cyfrannedd â chost y gwaith, fel canran o werth yr eiddo cyn iddo gael ei wella</li><li>• Ad-delir y benthyciad pan gaiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo oni bai ei fod yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo i'r sawl oedd yn meddiannu'r eiddo ar yr adeg pan wnaed y cais</li><li>• Gellir dewis ad-dalu'r benthyciad yn gynnar ar unrhyw adeg</li></ul>

## Cymorth penodol i'r Ardal Adnewyddu Cymdogaeth

### N3. GRANT EIDDO GWAG

**Uchafswm: grant o £20,000**

**Mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r grant os gwerthir neu os trosglwyddir yr eiddo cyn pen 5 mlynedd.**

**Ar gyfer perchnogion eiddo gwag, i'w gwella i safon lle gellir eu gosod ac, mewn ardaloedd cymwys, eu rhentu gan denantiaid a enwebir gan y Cyngor am 5 mlynedd.**

Diben y grant hwn yw helpu perchnogion i sicrhau y gellir defnyddio eiddo gwag eto o fewn Ardal Adnewyddu strategol y Cyngor. Bwriedir cynnwys gwaith sy'n dod â'r eiddo i fyny at y Safon Tai Gweddus (Atodiad A), er enghraifft gwaith i drwsio adeilad sydd mewn cyflwr gwael iawn, darparu cegin ac ystafell ymolchi fodern, gwella systemau gwresogi ac ynysu a dileu unrhyw beryglon difrifol a allai amharu ar les y preswlydd, megis lleithder, grisiau neu wifrau trydan peryglus.

<b>Meini Prawf Cymhwysedd</b>	<b>Amodau</b>	<b>Swm</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwahoddir yr ymgeisydd gan y Cyngor i wneud cais</li><li>• Mae gan yr ymgeisydd fuddiant perchennog</li><li>• I'w ddefnyddio o fewn Ardal Adnewyddu strategol y Cyngor</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r grant os gwerthir neu os trosglwyddir yr eiddo cyn pen 5 mlynedd. Bydd y swm a ad-delir yn lleihau o 20% ar gyfer pob blwyddyn lawn ers y dyddiad cwblhau</li><li>• Rhaid i'r eiddo gael ei osod i denantiaid am 5 mlynedd a'i reoli gan yr asiantaeth gosod tai cymdeithasol a enwebir gan y Cyngor</li><li>• Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw hawliau tenantiaeth trwy gydol y cytundeb</li><li>• Anogir y landlordiaid sy'n cymryd rhan i ymuno â Chynllun Cenedlaethol Achredu Landlordiaid Cymru a derbyn enwebiadau gan Gyngor Sir y Fflint</li><li>• Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae'r eiddo yn bodloni'r Safon Tai Gweddus</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Uchafswm grant o £20,000 yn amodol ar brofi cymhwysedd ac asesiad benthyciad</li><li>• Ad-delir cyfran o'r grant os gwerthir neu os trosglwyddir yr eiddo cyn pen 5 mlynedd</li></ul>

Sylwer: Ystyrir ceisiadau hefyd gan y rhai sy'n prynu eu cartref cyntaf ac sy'n dymuno byw yn yr eiddo ac sydd hefyd wedi cofrestru ar Gofrestr Perchnogaeth Cartref Fforddiadwy'r Cyngor. Nid yw'r ymgeiswyr hyn yn ddarostyngedig i'r amodau ynghylch asiantaeth gosod tai cymdeithasol yn rheoli'r eiddo, Cyngor Sir y Fflint yn dal hawliau



enwebu tenantiaid a'r gofyniad i ddod yn landlord achrededig.

## Atodiad A

### Safon Tai Gweddus

Y Safon Tai Gweddus yw safon Llywodraeth Lloegr ar gyfer tai. Er nad yw'n orfodadwy trwy statud, mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio fel targed ar gyfer safon llety yn y Sir.

Diffiniad cartref gweddus yw un sy'n bodloni'r pedwar maen prawf canlynol:

a) Mae'n cyrraedd y safon ofynnol bresennol ar gyfer tai

Diffinnir anheddau dan y safon hon fel y rhai sydd â pheryglon categori un o dan adran 2 Deddf Tai 2004.

b) Mae mewn cyflwr rhesymol

Anheddau sy'n methu bodloni'r maen prawf hwn yw rhai lle:

- mae un neu ragor o gydrannau allweddol yr adeilad yn hen ac, oherwydd eu cyflwr, y mae angen cael rhai newydd yn eu lle neu wneud gwaith trwsio mawr; neu

- mae dau neu ragor o gydrannau eraill yr adeilad yn hen ac, oherwydd eu cyflwr, y mae angen cael rhai newydd yn eu lle neu wneud gwaith trwsio mawr.

c) Mae ganddo gyfleusterau a gwasanaethau sy'n eithaf modern. Mewn anheddau sy'n methu bodloni'r maen prawf hwn mae tri neu ragor o'r pethau canlynol yn eisiau:-

- Cegin eithaf modern (20 mlwydd oed neu lai).
- Cegin sydd â digon o le a chynllun digonol.
- Ystafell ymolchi eithaf modern (30 mlwydd oed neu lai).
- Ystafell ymolchi a thoiled mewn lleoliadau priodol.
- Ynysiad digonol rhag sŵn allanol (lle mae sŵn allanol yn broblem).
- Digon o le a chynllun digonol ar gyfer rhannau cyffredin mewn blociau o fflatiau.

ch) Mae'n darparu lefel resymol o gysur thermol. I fodloni'r maen prawf hwn mae angen ynysiad effeithiol a hefyd gwres effeithlon.

## Cymorth penodol ar gyfer yr Ardal Adnewyddu Cymdogaeth

### N3. GRANT EIDDO GWAG

**Uchafswm: grant o £20,000.**

**Mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r grant os gwerthir neu os trosglwyddir yr eiddo cyn pen 5 mlynedd.**

**Ar gyfer perchnogion eiddo gwag, i'w gwella i safon lle gellir eu gosod ac, mewn ardaloedd cymwys, eu rhentu gan denantiaid a enwebir gan y Cyngor am 5 mlynedd.**

Diben y grant hwn yw helpu perchnogion i sicrhau y gellir defnyddio eiddo gwag eto o fewn Ardal Adnewyddu strategol y Cyngor. Bwriedir cynnwys gwaith sy'n dod â'r eiddo i fyny at y Safon Tai Gweddus (Atodiad A), er enghraifft gwaith i drwsio adeilad sydd mewn cyflwr gwael iawn, darparu cegin ac ystafell ymolchi fodern, gwella systemau gwresogi ac ynysu a dileu unrhyw beryglon difrifol a allai amharu ar les y preswlydd, megis lleithder, grisiau neu wifrau trydan peryglus.

Meini Prawf Cymhwysedd	Amodau	Swm
<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwahoddir yr ymgeisydd gan y Cyngor i wneud cais</li><li>• Mae gan yr ymgeisydd fuddiant perchennog</li><li>• I'w ddefnyddio o fewn Ardal Adnewyddu strategol y Cyngor</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r grant os gwerthir neu os trosglwyddir yr eiddo cyn pen 5 mlynedd. Bydd y swm a ad-delir yn lleihau o 20% ar gyfer pob blwyddyn lawn ers y dyddiad cwblhau</li><li>• Rhaid i'r eiddo gael ei osod i denantiaid am 5 mlynedd a'i reoli gan yr asiantaeth gosod tai cymdeithasol a enwebir gan y Cyngor</li><li>• Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw hawliau tenantiaeth trwy gydol y cytundeb</li><li>• Anogir y landlordiaid sy'n cymryd rhan i ymuno â Chynllun Cenedlaethol Achredu Landlordiaid Cymru a derbyn enwebiadau gan Gyngor Sir y Fflint</li><li>• Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae'r eiddo yn bodloni'r Safon Tai Gweddus</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Uchafswm grant o £20,000 yn amodol ar brofi cymhwysedd ac asesiad benthyciad</li><li>• Ad-delir cyfran o'r grant os gwerthir neu os trosglwyddir yr eiddo cyn pen 5 mlynedd</li></ul>

Hydref 2013